Mae'r ymgynghoriad bellach wedi dod i ben

**Sgroliwch i lawr i ddarllen yr holl wybodaeth**

**Cadarnhad**

Er mwyn meithrin a chadw hyder y cyhoedd, bydd y model ailddilysu arfaethedig yn cynnwys elfen o wirio gan 'drydydd parti'. Bydd yr elfen hon yn ei gwneud yn ofynnol i nyrs neu fydwraig gynnwys cadarnhad gyda'i datganiad gan nyrs neu fydwraig gofrestredig arall yn y DU, neu ei chyflogwr (neu'r ddau os nad yr un person ydynt).

Bydd y cadarnhawr yn nodi, hyd eithaf ei gwybodaeth, bod datganiad y nyrs neu fydwraig yn ddibynadwy ac y gall barhau i ymarfer. Bydd yn datgan nad yw hi, y cadarnhawr, yn ymwybodol o unrhyw bryderon difrifol a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch addasrwydd y nyrs neu'r fydwraig i ymarfer yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion Cod yr NMC.

Ni fydd angen i'r cadarnhawr fod wedi adnabod y nyrs neu'r fydwraig am y cyfnod ailddilysu cyfan (tair blynedd), ond bydd angen iddi fod yn gyfarwydd â'i hymarfer.

Os rhoddir y cadarnhad yn ddidwyll, ni fydd y cadarnhawr yn atebol am weithredoedd a wneir yn y dyfodol, neu weithredoedd a wnaed yn y gorffennol, os nad yw'r cadarnhawr yn ymwybodol ohonynt wrth roi'r cadarnhad.

Er mwyn rhoi sicrwydd y gall y nyrs neu'r fydwraig barhau i ymarfer, bydd dwy elfen i'r cadarnhad:

- Mae'n rhaid i'r cadarnhawr oruchwylio ei hymarfer e.e. cyflogwr/goruchwylydd/rheolwr.
- Mae'n rhaid i'r cadarnhawr fod yn nyrs neu'r fydwraig wedi'i chofrestru yn y DU ar hyn o bryd, yn gyfarwydd ag ymarfer y nyrs neu'r fydwraig neu mae'n rhaid iddi fod wedi trafod ei hymarfer â hi.

Os na all un person gyflawni'r ddwy ddyletswydd, gall y nyrs neu'r fydwraig geisio cadarnhad gan ddau berson, ar yr amod bod pob un ohonynt yn bodloni un o'r elfennau a'u bod, gyda'i gilydd, yn bodloni'r lefel o sicrwydd sydd ei hangen.

Er enghraifft:

- Dim ond un cadarnhad gan y person hwnnw sydd ei angen ar athrawes nyrsio yn atebol i bennaeth rhaglen sy'n nyrs neu'n fydwraig gofrestredig.
- Bydd angen i nyrs sy'n gweithio mewn Meddygfa a gaiff ei goruchwylio gan reolwr nad yw'n nyrs sydd wedi cofrestru â'r NMC gael cadarnhad gan y rheolwr hwnnw a hefyd gan gydweithiwr sy'n nyrs sydd wedi cofrestru â'r NMC.
- Byddai bydwraig sy'n gweithio ar ward mamolaeth y GIG yn gallu cael cadarnhad gan ei Goruchwylydd Bydwragedd neu gan fydwraig sy'n ei rheoli.



**Arfarnu**

Cyn belled ag y bo'n bosibl, nod yr ailddilysu fydd adeiladau ar brosesau sy'n bodoli eisoes. I'r rhan fwyaf o nyrsys a bydwragedd, dylai'r arfarniad blynyddol roi prif ffynhonnell cadarnhad gan drydydd parti, a hefyd eu helpu i fyfyrio ar eu hymarfer.

Felly, mae'r NMC yn argymell y dylai cadarnhad fod yn rhan o'r arfarniad pan fydd y nyrs neu'r fydwraig a'r cadarnhawr yn trafod:

- Ymarfer y nyrs neu'n fydwraig mewn perthynas â Chod yr NMC.
- Adroddiadau myfyriol y nyrs neu'r fydwraig ar adborth.

Mantais hyn yw:

- Ailddefnyddio prosesau presennol y cyflogwr, gan arbed amser ac ymdrech.
- Codi ymwybyddiaeth arfarnwyr anghofrestredig o'r Cod a gofynion cofrestriad proffesiynol, gan gynnwys dyletswyddau nyrs neu fydrwaig fel codi pryderon.
- Rhoi cyfle i oruchwylwyr arfarnu roi adborth ar ymarfer nyrs neu fydwraig yn seiliedig ar werthoedd y Cod.
- Rhoi ffordd i nyrsys a bydwragedd ganolbwyntio ar eu datblygiad proffesiynol parhaus.
- Annog cyflogwyr i gynnal arfarniadau rheolaidd a dylanwadu ar ansawdd a chysondeb systemau arfarnu a'u gwella ledled y pedair gwlad.

Mae'r model ailddilysu arfaethedig wedi'i gynllunio er mwyn bod yn gymwys i bob nyrs a bydwraig, ym mhob agwedd ar ymarfer a lleoliadau gwaith. Bydd yr NMC yn parhau i ymgysylltu â nyrsys, bydwragedd a chyflogwyr ar werth integreiddio proses arfarnu â gwaith ailddilysu.